



# cta

community transport  
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

## Gair i Gall



## Ffurio Astudiaethau Achos Gafaelgar

### Pobl



**Bydd y canllawiau hyn o gymorth i:** ddarparwyr cludiant cymunedol o bob maint sydd eisiau dangos gwerth eu gwaith trwy adrodd eu stori.

### Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:

Astudiaethau achos cryf sy'n cyfleu effaith eich gwaith i ddarpar gyllidwyr neu gefnogwyr, ac y gellir eu defnyddio mewn nifer o ffyrdd gwahanol. ✓

### Beth fydd ei angen arnoch chi:

Parodrwydd i ganolbwyntio ar adrodd straeon ✓

Adborth gafaelgar gan bobl sy'n cael cymorth gennych ✓

Dealltwriaeth o'ch strategaeth marchnata a chyfathrebu ✓

### Sut byddwch chi'n ei wneud:

- “Rhowch ffaith i mi ac fe ddysgaf. Rhowch wirionedd i mi ac fe gredaf. **Ond adroddwch stori i mi a bydd yn byw yn fy nghalon am byth.**” (Ed Sabol - gwneuthurwr ffilmiau).
- Yn syml, **'straeon' ydy astudiaethau achos, sy'n dangos gwerth eich gweithgareddau neu'ch gwasanaethau.** Maen nhw'n straeon am bobl ac mae iddynt ddechrau (**'cyn i chi wneud hyn ro'n i'n cael tipyn o anhawster...'**), canol (**'dyma beth wnaethoch chi i roi cymorth i mi...'**) a diwedd (**'mae fy mywyd yn well nawr oherwydd...'**).

- Canolbwyntiwch ar *adrodd stori dda* o'r dechrau i'r diwedd. **Mae angen iddi gydio yn eich cynulleidfa.** Dim ond eiliadau sydd gennych i gydio yn eu sylw, felly mae'r frawddeg gyntaf yn un bwysig. Peidiwch â'i gwastraffu ar wybodaeth gefndirol, er enghraifft: yn hytrach na dechrau astudiaeth achos gyda, **"Mae Arthur wedi bod yn defnyddio gwasanaeth Galw'r Gyrrwr Rhywdre ers 5 mlynedd ac mae'n dweud ei fod wedi ei helpu"**, gallech ddechrau stori Arthur trwy ddweud **"Ro'n i'n arfer edrych allan trwy'r ffenest a gweld fy nghymdogion yn neidio i mewn i'w ceir ac yn mynd allan, ond do'n i ddim yn gwybod a fyddwn i'n gallu gadael fy nghartref eto..."**.
- Darparwch ar gyfer darllenwyr sy'n bwrw cip dros bethau. Efallai mai bwrw cip sydyn dros eich gwefan, blog neu gynnig am gyllid fydd eich cynulleidfa, felly ystyriwch **sut** i gyflwyno gwybodaeth. **Defnyddiwch benawdau disgrifiadol sy'n dal y llygad, amlygwch ddyfyniadau a rhowch bytiau sy'n taflu goleuni arbennig ar y stori mewn blychau.** Cadwch y testun yn fyr a defnyddiwch lawer o luniau, ffotograffau neu ffeithluniau, lle bo hynny'n briodol.
- **Ystyriwch pam rydych chi'n ysgrifennu'ch astudiaethau achos.** Mae'n helpu bod yr ateb yn eich meddwl wrth i chi ysgrifennu. Gallech chi fod yn ysgrifennu astudiaeth achos i ddangos i ddarpar gyllidwr pa effaith mae eich elusen/mudiad yn ei chael, neu efallai y byddwch yn ygrifennu ar gyfer gwefan neu flog, er mwyn codi ymwybyddiaeth am eich gwaith yn fwy cyffredinol.
- Beth ydych chi am i'r darllenwr ei feddwl, ei deimlo a'i wneud? Mae ystyried y cwestiynau hyn **cyn** i chi ddechrau ysgrifennu yn eich **helpu i ganolbwyntio ar y neges rydych chi am ei chyfleu** trwy gyfrwng yr astudiaeth achos.
- Defnyddiwch ddyfyniadau uniongyrchol a gadewch i eiriau'r person siarad drostynt eu hunain ble bynnag y gallwch gan eu bod wastad yn swnio'n fwy byw. Defnyddio lleisiau'r bobl sy'n cael cymorth gennych yw'r ffordd orau posib o ddangos effaith gwaith eich mudiad. Maen nhw'n dangos i'r darllenwyr pa mor effeithiol ydych chi yn hytrach na'ch bod chi'n ceisio dweud wrthyn nhw. Mae **'dangos nid dweud'** yn arwyddair da wrth ysgrifennu astudiaethau achos. Gadewch i'r darllenwr wneud y cysylltiadau neu lenwi'r bylchau. Sicrhewch eich bod wedi cadarnhau gyda'r unigolyn sy'n cael ei ddyfynnu ei fod yn fodlon i chi ddefnyddio'r dyfyniad. **Dewiswch un neu ddau o ddyfyniadau grymus yn ogystal ag eitem weledol sy'n atgyfnerthu'r stori sy'n cael ei hadrodd.** Cofiwch ddweud **'pam'** yn ogystal â **'beth'** - yn ogystal â dweud beth ddigwyddodd, mae'n bwysig bod astudiaeth achos yn dweud pam hefyd.
- Canolbwyntiwch ar **sylwedd yn hytrach na swm.** Mae cael un neu ddau o astudiaethau achos arbennig o gryf gymaint gwell na chael hanner dwsin o rai gweddol, **felly rhowch amser i ddatblygu eich astudiaethau achos a chanfod yr enghreifftiau gorau o'ch gwaith.**

- **Rhowch amrywiaeth o ffurfiau gwahanol.** Efallai y byddwch eisiau cael ambell astudiaeth achos ysgrifenedig i'w cynnwys mewn ceisiadau am gyllid neu mae'n bosib y byddwch eisiau astudiaethau achos fideo ar YouTube neu bodlediadau ar gyfer eich gwefan.
- Defnyddiwch fframwaith cyson i'ch helpu chi i gynllunio'r cynnwys ac i sicrhau bod rhywfaint o gysondeb i'r astudiaethau achos. **Ffurfiwch dempled sylfaenol i'ch helpu chi i gasglu'r wybodaeth y bydd ei hangen arnoch chi.** Gallech chi gynnwys cwestiynau y byddwch am gasglu gwybodaeth yn eu cylch: trosolwg, her, y dull a ddefnyddiwyd / y daith tuag at y datrysiad, y datrysiad, canlyniadau.
- Gallai'r canlynol roi ffurf nodweddiadol ar gyfer astudiaeth achos: 1. Teitl, 2. Y bobl/sefyllfa dan sylw, 3. Heriau ac amcanion, 4. Sut gwaneth y datrysiad helpu, 5. Canlyniadau, 6. Elfennau gweledol a dyfyniadau i atgyfnerthu, 7. Cynlluniau ar gyfer y dyfodol, 8. Galwad i weithredu. Does dim rhaid i bob astudiaeth achos gynnwys galwad i weithredu, ond os yw hynny'n addas, **gallwch chi annog y darllenwr i wneud rhywbeth ar ôl dod i wybod am waith eich mudiad a'r modd y mae'n newid bywydau.**
- **Dewch o hyd i'r person gorau ar gyfer yr astudiaeth achos** – oes yna yrrwr gwirfoddol sy'n mynd **'filitir ymhellach'** er mwyn cefnogi'r teithwyr? Oes rhywun sydd wedi cael cymorth eich gwasanaeth y mae eu bywyd wedi ei newid er gwell? Er enghraifft, os byddwch yn llunio astudiaeth achos ynglŷn â gwirfoddoli, gallech chi ofyn sut mae'r unigolyn wedi elwa o wirfoddoli gyda'ch mudiad, beth mae wedi'i ddysgu am ei hunan, beth sy'n ei gymell i wirfoddoli, beth fyddai ei neges i bobl eraill ynglŷn â gwirfoddoli. Mae dangos cynnydd yn beth da - ydy hunanhyder y gwirfoddolwr wedi gwella o ganlyniad i'r hyfforddiant a'r gefnogaeth a gafodd? A yw'n tawelu meddwl ac yn estyn croeso cynnes i wirfoddolwyr newydd fel rhan o'u trefniadau cynefino hwythau?
- **Ewch ati i gael adborth.** Profwch eich astudiaethau achos trwy ofyn i gydweithwyr neu bobl oddi allan i'ch mudiad am eu barn? A oes digon o wybodaeth? Gormod? Beth fyddai'n ei gwneud yn astudiaeth achos mwy gafaelgar? Pa fanylion allweddol fyddai angen iddyn nhw gael gwybod amdanynt?
- Er mai at ddibenion codi arian y caiff astudiaethau achos eu llunio yn aml – **peidiwch ag anghofio eu rhoi yn eich adroddiad blynyddol / adolygiad blynyddol ac ar eich gwefan.**

---

## Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020

Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

**Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn [ctauk.org/cciw-cymraeg](https://ctauk.org/cciw-cymraeg).**